Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon 2018-19:** Llywodraeth Cymru

Mai 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **www.senedd.cymru/SeneddArchwilio**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon 2018-19:** Llywodraeth Cymru

Mai 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Gareth Bennett AS**
Annibynnol



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion** ..... 6

**1. Cefndir** ..... 8

**2. Paratoi'r Cyfrifon** ..... 9

Y Broses a'r Amserlenni ..... 9

Ymarfer Cysoni ..... 10

Casgliadau ac argymhellion ..... 11

**3. Tryloywder** ..... 12

Papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau ..... 12

Datganoli cyllidol ..... 13

Adrodd am sut y gwariwyd arian cyhoeddus ..... 13

Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru ..... 16

Cysoni Amcanion Polisi, Gwariant ac Effaith ..... 18

**4. Adrodd am Berfformiad** ..... 20

Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y gwasanaeth sifil ..... 24

Casgliadau ac argymhellion ..... 25

**5. Llywodraethu ac Atebolrwydd** ..... 29

Proffil risg ..... 29

Materion Rheolaeth Fewnol ..... 30

Casgliadau ac argymhellion ..... 35

**6. Y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru** ..... 37

'Diogelu'r Dyfodol' ..... 37

Arolwg Staff ..... 38

Recriwtio ..... 39

Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) ..... 40

Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ..... 42

Y Gymraeg ..... 44

Trefniadau Staffio ac Atebolrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol.....44
Casgliadau ac argymhellion.....46

# Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod yr hydref 2019, buom yn craffu'n fanylach ar Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2018-19, gan ein galluogi i edrych yn agosach ar wahanol adrannau'r cyfrifon a chanolbwyntio mwy ar sut y mae'r Gwasanaeth Sifil yn gweithio yng Nghymru. Am y tro cyntaf hefyd, clywsom gan Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gyfle inni ddysgu am eu rolau a'u cylch gwaith a'u cyfraniad at drefniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad amser a roddwyd gan swyddogion a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol i gefnogi'r dull gwahanol hwn, a fu'n fuddiol iawn.

Er inni weld gwelliant yn y modd y paratowyd ac y cyflwynwyd Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19, mae nifer o themâu yn codi o'n gwaith craffu blaenorol, ac mae'r rheini'n cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn dal i gredu y gallai, ac y dylai, Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw wrth gyflwyno'i hadroddiadau ariannol. Mae'r diffyg cysondeb ar hyn o bryd o ran cyhoeddi adroddiadau allweddol yn amharu ar allu'r Cynulliad i graffu ar berfformiad yn effeithiol. Mae yna ddeunydd sy'n dal i fod heb ei gyhoeddi, fel papurau cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru a dogfennau'n ymwneud â'r cyfrifon. Heb y darlun llawnach hwn, ni allwn ystyried materion rheolaeth ariannol a llywodraethu yn eu cyfanrwydd.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o gyhoeddi papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), yn hytrach na chyhoeddi agendâu a chofnodion cryno yn unig. .......................... Tudalen 25

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff a noddir ganddi i adolygu pa wybodaeth y maent yn ei chyhoeddi ynglŷn â'u Byrddau a chyfarfodydd eu pwyllgorau archwilio er mwyn sicrhau safonau gofynnol cyson, gan alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. ........................................................................................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dilyn yr arfer gorau o ran rheoli ariannol, cyllidebu ac adrodd. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cynlluniau gwariant dangosol a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau, sicrhau bod cyllidebau wedi'u cysoni ag alldro, cyhoeddi cyfrifon Llywodraeth Gyfan a chynlluniau a rhagolygon cyllid cyhoeddus sy'n edrych tua'r dyfodol. Yn benodol, rydym yn argymell:

- bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i ystyried rhinweddau ac ymarferoldeb paratoi Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni yn hydref 2020;
- bod y Datganiad o Alldro Adnoddau yn nodi rhagor o wybodaeth am amrywiannau sylweddol ac yn egluro'r gwahanol fathau o amrywiannau, gan ystyried y materion a amlinellir ym mharagraff 33 o'r adroddiad hwn;
- bod yr Adroddiad Alldro yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol, yn ogystal â chael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid yr un pryd â chyfrifon cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru neu'n fuan ar ôl hynny;
- bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ar ei gwefan sy'n nodi ei dull cyffredinol o adrodd a'r cysylltiadau rhwng y pedwar adroddiad blynyddol allweddol a gyhoeddir ganddi fel y'u nodir yn Nhabl 1 yn yr adroddiad hwn;
- y dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gyflwyno cyfres glir a symlach o amcanion a dangosyddion cyffredin ar draws y meysydd adrodd a amlinellir yn Nhabl 1 i hwyluso'r gwaith o wella cysondeb adroddiadau perfformiad cynhwysfawr. ........................................................................................ Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr inni o'r dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n bwriadu adrodd arnynt ar gyfer 2019-20 i fesur perfformiad gweinyddol y Gwasanaeth Sifil ac amserlen ar gyfer adrodd ar y dangosyddion sy'n weddill.......................................................................... Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell cynnwys crynodeb o'r risgiau allweddol ac unrhyw newidiadau iddynt yn ystod cyfnod y cyfrifon. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a sut y mae'r rheini'n cael eu lliniaru. Nid ydym yn galw am gynnwys holl gofrestr rsg Llywodraeth Cymru yn y cyfrifon. .......................................................................................................................................................... Tudalen 35

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi esboniad llawnach i'r Pwyllgor o sut a pham y penderfynwyd symud o'r gofyniad bod hawliadau grantiau awdurdodau lleol yn cael eu hardystio'n allanol i ddibynnu bellach ar gymeradwyaeth mewnol yn unig, a pham y mae wedi rhoi'r gorau i'w hymdrechion i gael sicrwydd bod grantiau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. .......................................................................................................................................................... Tudalen 36

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhoi mwy o eglurder drwy esbonio'n fanwl ei llinellau atebolrwydd ac unrhyw fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl. ............................................ Tudalen 47

**Argymhelliad 8.** Yn olaf, wrth baratoi i ymgysylltu â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol sydd ar ddod ar gynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru, cred y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol i'r Ysgrifennydd Parhaol nodi beth yw'r cysylltiadau rhwng ei chyfrifoldeb am staffio a blaenoriaethau'r Gweinidogion. .......................................................................................................................................................... Tudalen 47

# 1. Cefndir

**1.** Yn ystod yr hydref, bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru. Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliodd y Pwyllgor ei waith craffu yn ystod tair sesiwn dystiolaeth, gan edrych yn fanwl ar y materion a oedd yn codi o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19 (Cyfrifon 2018-19). Gosodwyd y cyfrifon hyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Awst 2019. Roedd y gwaith craffu hwn yn cynnwys clywed gan rai o Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

**2.** Mae Cyfrifon 2018-19 yn rhoi gwybodaeth am Graidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) a Grŵp Llywodraeth Cymru. Mae sefyllfa'r Grŵp yn adlewyrchu trafodion a balansau Llywodraeth Cymru, ei his-gwmnïau a'i Byrddau Iechyd Lleol. Roeddent hefyd yn cynnwys, am y tro cyntaf, drafodion a balansau Ymddiriedolaethau'r GIG a Trafnidiaeth Cymru.

**3.** Cafodd y cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a roddodd farn ddiamod arnynt.

**4.** Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio ailadrodd y dystiolaeth helaeth a gafwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar; yn hytrach, mae'n cyflwyno safbwyntiau'r Pwyllgor ar y materion allweddol a ystyriwyd gennym. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig, ynghyd â gwaith craffu blaenorol y Pwyllgor ar adroddiadau cyfrifon yn ymwneud â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, yn llawn yn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15845

# 2. Paratoi'r Cyfrifon


## Y Broses a'r Amserlenni

**5.** Gosodwyd Cyfrifon 2018-19 ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r amserlen a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd gwelliannau wedi'u gwneud i'r broses ar gyfer paratoi'r cyfrifon eleni.

**6.** Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys swyddogion yn adolygu'r taenlenni a ddefnyddiwyd i baratoi'r cyfrifon, cryfhau tîm cyfrifon Llywodraeth Cymru, ac amserlennu'n fwy gofalus. Y bwriad oedd i swyddogion gwrdd â staff Swyddfa Archwilio Cymru i ystyried a oedd newidiadau pellach y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i wella'r broses.[1]

**7.** Yn rhinwedd ei swydd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, Y Fonesig Shan Morgan DCMG, sef yr Ysgrifennydd Parhaol, sy'n gyfrifol am baratoi cyfrifon Llywodraeth Cymru. Fe'i cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, ac mae rôl y Bwrdd yn cynnwys "sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu i'r safon uchaf o lywodraethiant, rheolaeth ariannol, ac wrth reoli risgiau a phrosesu cyfrifon blynyddol".[2] Mae cylch gorchwyl y Bwrdd wedi'u cynnwys yn Niagram A, sy'n nodi strwythur llywodraethiant cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Diagram A




[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraffau 14-15

[2] Cylch Gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru (Ionawr 2020)

**8.** Clywsom fod y cyfrifon yn cael eu hadolygu ar bob lefel, gan ddechrau ag adolygiad trylwyr gan uwch swyddogion, gyda gwaith craffu pellach ar lefel y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i Fwrdd Llywodraeth Cymru.

**9.** Awgrymodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n ceisio cymeradwyo'r cyfrifon ym mis Gorffennaf, ond bod hyn yn annhebygol o ddigwydd yn achos Cyfrifon 2019-20 oherwydd cyfyngiadau ymarferol. Ymhlith y rhain roedd y prosesau hirfaith a thrylwyr sy'n cael eu dilyn wrth sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu llunio'n gywir.[3]

## Ymarfer Cysoni

**10.** Yn ei adroddiad, Ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb, argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad:

> "…dylid cynnal 'ymarfer cysoni', yn debyg i'r un yn San Steffan, er mwyn sicrhau bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffin ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Cynulliad â'r un a ddefnyddir gan y Trysorlys er mwyn rheoli gwariant cyhoeddus. Byddai angen i Lywodraeth Cymru hefyd baratoi ei chyfrifon ar yr un sail. Byddai hyn yn gam cyntaf defnyddiol tuag at lunio cyfrif llywodraeth gyfan Cymru."[4]

**11.** Ymgynghorodd **Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2019**[5] am y cynigion diweddaraf i ddiwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 er mwyn iddo gynnwys cyrff cyhoeddus penodol o Gymru yn y rhestr o gyrff dynodedig. Gofynnwyd am farn pobl am gam nesaf y gwaith cysoni (cam 3), sy'n canolbwyntio ar gyrff cyhoeddus yn sector y llywodraeth ganolog yng Nghymru: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, cyrff Comisiynwyr, ac Elusennau GIG Cymru (fel y'u diffinnir gan adran 150(4) o Ddeddf Elusennau 2011).

**12.** Yn y ddogfen ymgynghori, nodwyd bod angen i gyrff ddarparu gwybodaeth ariannol ar ffurf ac o fewn amserlen a ragnodir gan Lywodraeth Cymru.

**13.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru hanner ffordd trwy ymarfer i gysoni'r gyllideb a'r ffiniau cyfrifyddu i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a

[3] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 26

[4] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb, Gorffennaf 2014, tudalen 34

[5] Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018, Mai 2019

noddir ganddi. Ar hyn o bryd, o'r 48 corff, mae 20 wedi'u dynodi ac wedi'u cysoni â strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru, ac mae 13 o'r rhain eisoes wedi'u cynnwys yn y cyfrifon. Mae hynny'n gadael 28 o gyrff nad ydynt wedi'u cysoni ar hyn o bryd.

**14.** Amlygodd yr ymgynghoriad nifer o faterion i'w datrys er mwyn sicrhau bod cyrff yn glir ynghylch pwrpas yr ymarfer cysoni a'r goblygiadau i'w hannibyniaeth. Rhagwelir y bydd tri chorff arall yn cael eu dynodi a'u cynnwys yn rhan o ffin gyfrifyddu Llywodraeth Cymru yn 2019-20.[6]

## Casgliadau ac argymhellion

**15.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd wrth baratoi cyfrifon 2018-19 ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r broses yn barhaus. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai pandemig y Coronafeirws effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gynnal amserlen bresennol y cyfrifon ar gyfer eleni, heb sôn am wneud unrhyw welliannau iddi. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddychwelyd at y mater hwn ar gyfer cyfrifon 2020-21.

**16.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gwelliannau hyn yn bwysig o ystyried y daw'r ymarfer cysoni â chyrff ychwanegol o fewn ffin gyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Mae angen amserlen i ddatrys problemau ac mae angen i'r cyrff gytuno ar fformat ar gyfer rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru, er mwyn i'r wybodaeth honno gael ei phrosesau'n rhwydd ac yn gywir ar gyfer y cyfrifon.

**17.** Yn unol â'r ymrwymiad a roddwyd mewn ymateb i argymhelliad 11 yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2017-18,[7] disgwyliwn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hamserlen ar gyfer paratoi'r cyfrifon blynyddol ar ei gwefan.

---

[6] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 24

[7] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, (30 Ebrill 2019)

# 3. Tryloywder

## Papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau

**18.** Mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am berfformiad Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r gofynion a roddir ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, fel Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, sy'n gorfod cyhoeddi papurau cyfarfodydd eu byrddau. Dywedodd y Pwyllgor yn flaenorol:

> "Rydym am i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff eraill i adolygu pa wybodaeth y maent yn trefnu iddi fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau safon gyson, a galluogi'r cyhoedd i weld sut y gwneir penderfyniadau. Rydym yn credu y bydd hyn yn hyrwyddo natur agored a thryloyw, ac yn dangos atebolrwydd y cyrff i drethdalwyr Cymru."[8]

**19.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "We publish the papers of the Welsh Government board on the Welsh Government website, but it is true that we don't publish everything. The papers of the sub-committee, including remuneration committee, are not published. Some of those would be very difficult to do, because they deal with specific individuals and issues relating to them, and I wouldn't want to do that."[9]

**20.** Wrth inni gyhoeddi ein hadroddiad, dim ond agenda a chofnodion cryno cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru oedd ar gael ar-lein ac nid oedd y papurau wedi cael eu cyhoeddi. Ceir anghysondeb hefyd o ran cyhoeddi papurau a chofnodion cyfarfodydd byrddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

**21.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi agendâu na phapurau ei his-bwyllgorau, megis y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'n ymddangos bod hyn yn gyson â'r dull a ddilynir gan y cyrff y mae'n eu noddi.

**22.** Mae hyn yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru na'r cyrff a noddir ganddi yn cyhoeddi'r adroddiadau sy'n ymwneud â pharatoi ac archwilio eu cyfrifon blynyddol. Nid yw pob corff ychwaith yn cyhoeddi eu cyfrifon rheoli yn ystod y

---

[8] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, Mawrth 2019, paragraff 81

[9] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 19

flwyddyn na gwybodaeth i ddangos sut y mae penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud.

**23.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i roi ystyriaeth bellach i gyhoeddi papurau cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru.

## Datganoli cyllidol

**24.** Roedd Rhan 1 o Gyfrifon 2018-19 yn cynnwys trosolwg o'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi gweinyddu'r pwerau cyllidol newydd a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru. Roedd yn cyflwyno gwybodaeth am fframwaith polisi treth Llywodraeth Cymru, diwygio trethi lleol (treth gyngor ac ardrethi annomestig) a Chyfraddau Treth Incwm Cymru, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2019.

**25.** Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y wybodaeth hon wedi cael ei chynnwys, gofynnodd i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd Llywodraeth Cymru, er mwyn gwella tryloywder, yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau neu ddatgeliadau ychwanegol yng Nghyfrifon 2019-20.[10]

**26.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyhoeddi manylion llawn y trethi a dalwyd yng Nghymru a bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi cyhoeddi adroddiad ar refeniw trethi datganoledig ochr yn ochr â chyllideb Llywodraeth Cymru. Yn ei barn hi, gyda'i gilydd, roedd y rhain yn darparu tryloywder. Fodd bynnag, byddai'n ystyried y cwmpas ar gyfer cynnwys rhagor o wybodaeth yn Rhan 1 o'r cyfrifon yn y dyfodol.[11]

## Adrodd am sut y gwariwyd arian cyhoeddus

**27.** Rydym wedi dweud yn y gorffennol bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw wrth adrodd am ei halldro yn erbyn y gyllideb, gan gynnwys esbonio amrywiannau. [12]

**28.** Yn ei Adroddiad, Craffu ar Gyfrifon 2016-17, dywedodd y Pwyllgor y canlynol am y modd y cyflwynwyd y wybodaeth

> "…nid yw cyflwyno'r wybodaeth fel hyn yn helpu tryloywder ac i'r perwyl hwn rydym yn croesawu'r sicrwydd a ddarperir gan yr Ysgrifennydd

[10] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 27

[11] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 28

[12] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2016-17, Chwefror 2018, paragraff 81

> Parhaol yn ystod y cyfarfod, sef bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei symleiddio ar gyfer cyfrifon blwyddyn nesaf."

**29.** Y flwyddyn ar ôl hynny, argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru:

> "… yn trefnu bod gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad ar gael i'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd." (argymhelliad 14)

**30.** Wrth ymateb yn flaenorol,[13] cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y Datganiad o Alldro Adnoddau, sy'n dangos beth yw'r alldro yn erbyn y gyllideb y pleidleisiodd y Cynulliad drosti. Nid yw'r modd y mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chyflwyno yng Nghyfrifon 2018-19 yn wahanol iawn i'r modd y gwnaed hynny yn 2016-17 a 2017-18.

**31.** Dangosodd Datganiad o Alldro Adnoddau 2018-19, a'r nodiadau sy'n cyd-fynd â hwnnw, fod gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer pob Cwmpas neu Brif Grŵp Gwariant (MEG) o fewn y gyllideb y pleidleisiodd y Cynulliad drosti. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei thanwariant yn £274 miliwn yn erbyn cyllideb o £17.1 biliwn, sy'n 1.6 y cant. Roedd gwir incwm Llywodraeth Cymru yn 2018-19 yn £281 miliwn yn llai na'i chyllideb o £1.2 biliwn, amrywiant o 23 y cant o'r gyllideb. Nododd y Pwyllgor fod incwm Llywodraeth Cymru wedi bod o leiaf 10 y cant yn is na'r gyllideb bob blwyddyn ers 2015-16, ac yn fwy na 20 y cant yn is yn 2015-16 a 2018-19.

**32.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Parhaol, os nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwario ei chyllideb, nid oedd Cymru wedi colli unrhyw gyllid, ac roedd y tanwariant wedi'i ychwanegu at gronfa wrth gefn Cymru ar gyfer blaenoriaethau'r dyfodol. Nododd fod modd i Lywodraeth Cymru gadw hyd at £350 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Ychwanegodd fod rhywfaint o'r tanwariant wedi deillio o raglenni gwariant a reolir yn flynyddol (AME), ac y gall y rheini fod yn gyfnewidiol ac yn ddibynnol ar alw. Dywedodd nad oedd y tanwariant wedi deillio o ddiffyg trylwyredd ond yn hytrach o natur anrhagweladwy'r rhaglenni dan sylw.[14]

---

[13] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, (30 Ebrill 2019)

[14] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 114

**33.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi darparu trosolwg o'r esboniadau am yr amrywiannau, gan geisio cydbwyso rhwng rhoi digon o wybodaeth ond heb golli diddordeb pobl. Dywedodd fod y nodiadau yn y Datganiad o Alldro Adnoddau yn cynnwys esboniadau am amrywiannau o dros £10 miliwn gan mai dyna oedd fwyaf tebygol o fod o ddiddordeb i bobl ond cadarnhaodd ei bod yn hapus i gynnwys rhagor o fanylion mewn cyfrifon yn y dyfodol.[15]

**34.** Nid yw Cyfrifon 2018-19 yn esbonio pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi bodloni ei chyllideb ar gyfer incwm. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol y rheswm dros hyn, sef mai cyllid yr UE oedd y rhan fwyaf o incwm Llywodraeth Cymru a'i bod yn anodd ac yn gymhleth rhagweld pryd y byddai hwnnw'n dod i law.[16]

**35.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol, pe bai Llywodraeth Cymru yn gosod ei chyllideb incwm yn rhy isel a bod mwy o arian yn dod i law gan yr UE na'r disgwyl, yna byddai'n ofynnol iddi ildio i Gronfa Gyfunol Cymru unrhyw symiau a oedd yn ychwanegol at y gyllideb.

**36.** At hynny, pe bai'r symiau a gedwir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar ddiwedd y flwyddyn honno yn uwch na'r trothwy, byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddychwelyd arian i'r Trysorlys. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod hyn yn golygu bod yn rhaid rheoli'r gyllideb yn ofalus i liniaru'r risg y byddai Cymru'n colli incwm:

> "Setting the budget high makes sure that we don't lose money that we could spend on Welsh priorities. And, again, it's a balance between setting it realistically high and not setting it so low that we then breach it and can't use the money for Wales."[17]

**37.** Roedd ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol i Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, yn dweud y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tabl pellach yng Nghyfrifon 2018-19 i nodi'r 30 maes gwariant mwyaf. Nid oedd hyn wedi digwydd ar gyfer Cyfrifon 2018-19 ond roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys ffeithlun yn dangos y pum maes gwariant uchaf, a oedd yn dod i gyfanswm o £11.2 biliwn. Roedd hyn yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o gyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru.

---

[15] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 124

[16] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraffau 127–128

[17] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 128

**38.** Yn ei diweddariad ar yr argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Yn ystod y broses o baratoi'r Cyfrifon daeth yn amlwg mai ychydig iawn o wybodaeth ychwanegol ddefnyddiol fyddai defnyddwyr y Cyfrifon yn ei chael os byddem yn gwneud dim mwy na chasglu'r 30 maes gwariant mwyaf mewn tabl, a fyddai'n cynnwys costau cyfrifo nad yw'n arian parod yn ogystal â gwariant ychwanegol."[18]

**39.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, ar ôl ailystyried, y byddai'n gliriach cynnwys y pum maes gwariant mwyaf yn unig er mwyn cyflawni amcanion y Pwyllgor a rhoi trosolwg i'r cyhoedd o'r prif feysydd lle y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

**40.** Cyfeiriodd ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol y llynedd hefyd at adroddiadau eraill a lunnir gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys yr Adroddiad Alldro, sef adroddiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno'n flynyddol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad i roi 'manylion cynhwysfawr ynghylch sut mae alldro Llywodraeth Cymru yn cymharu â'r gyllideb'.[19] Fodd bynnag, pan osodwyd Cyfrifon 2018-19, roedd yr Adroddiad Alldro diweddaraf yn trafod alldro Llywodraeth Cymru yn 2017-18.[20]

**41.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n gofyn i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a ellid anfon copi o'r Adroddiad Alldro at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pan fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid. Ychwanegodd fod yr Adroddiad Alldro yn cael ei baratoi ar ôl i'r Cyfrifon gael eu harchwilio, er mwyn rhoi sicrwydd.[21]

## Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru

**42.** Yn ei sesiwn ffarwél ym mis Gorffennaf 2018, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth y Pwyllgor:

> "… rych chi'n gorfod craffu ar beth mae'r Llywodraeth yn ei gwneud, ac mae'n rhaid i fi ddweud, nid wyf yn credu bod y Llywodraeth mor agored ag y dylai fod, ac mae hynny'n meddwl bod yna gyfrifoldeb arnoch chi i graffu yn fwy manwl."

[18] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-19 Papur 5, 7 Hydref 2019
[19] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, (30 Ebrill 2019)
[20] Llywodraeth Cymru Adroddiad ar Alldro 2017-18 (Tachwedd 2018)
[21] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 141

**43.** Awgrymodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru greu Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru. Dywedodd fod rhesymau da iawn pam y dylai Cymru wneud hynny, a'i fod yn hanfodol er mwyn deall cyflwr yr holl asedau a'r rhwymedigaethau a'u heffaith ar genedlaethau'r dyfodol.

**44.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yn flaenorol y byddai gwerth i Lywodraeth Cymru baratoi Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru. Byddai hyn yn helpu i greu darlun o gyflwr cyllid cyhoeddus y genedl ac yn arbennig o bwysig o ystyried pwerau trethu a benthyca newydd Llywodraeth Cymru. Byddai hefyd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**45.** Ysgrifennodd Archwilydd Cyffredinol Cymru[22] atom yn amlinellu arferion yn Seland Newydd, lle mae'r egwyddor o adrodd yn agored ac yn dryloyw ar gynlluniau a gweithgareddau'r llywodraeth wedi hen ennill ei blwyf. Creodd Llywodraeth Seland Newydd ei chyfres gyntaf o gyfrifon llywodraeth gyfan ym 1991; mae Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny bob blwyddyn ers 2011; ac ymrwymodd Llywodraeth yr Alban yn 2016 i wneud hynny (cyn cael pwerau cyllidol a benthyca newydd). Ym mis Tachwedd 2018, ail-gadarnhaodd Llywodraeth yr Alban ei bwriad yn hyn o beth i Bwyllgor Archwilio Cyhoeddus ac Ôl-ddeddfwriaethol Senedd yr Alban, er bod Archwilydd Cyffredinol yr Alban wedi nodi nad yw Llywodraeth yr Alban wedi cyflawni ei hymrwymiad o hyd.[23]

**46.** Gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru, a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor.[24]

**47.** Derbyniodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr argymhelliad hwn, gan nodi y byddai'n rhoi diweddariad yn hydref 2019. Ond ychwanegodd:

> "… ar hyn o bryd nid oes achos cryf wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru dros baratoi cyfrifon Cymru Gyfan."[25]

**48.** Ym mis Hydref 2019, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym ei bod yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn symud tuag at fwy o ddull llywodraeth gyfan, gan gynnwys y cyrff sydd wedi'u cysoni â Llywodraeth Cymru (fel y'u disgrifir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn), gan nodi:

---

[22] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-28-19 Papur 6, 11 Tachwedd 2019
[23] Adroddiad: The 2017/18 audit of the Scottish Government Consolidated Accounts, tudalen 5 (Medi 2019)
[24] Adroddiad: The 2017/18 audit of the Scottish Government Consolidated Accounts, tudalen 45 (Medi 2019)
[25] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-12-19 Papur 4, 13 Mai 2019

> "We'll continue to do that before we're able to take stock of the value of including other bodies in whole-of-Wales account approach. The main ones that would be left at that point, once we've designated and consolidated the arm's-length bodies would essentially be local authorities. So, that would make for a very, very bulky set of accounts if we included everything.
>
> From talking to my Scottish counterpart, I gather what they're thinking about is just having a couple of tables that pull out some key figures for comparison rather than incorporating all of their local authority accounts into one whole-of-Scotland account."[26]

## Cysoni Amcanion Polisi, Gwariant ac Effaith

**49.** Trafododd y Pwyllgor yr angen i greu cysylltiad rhwng y wybodaeth yn y cyfrifon ac amcanion polisi er mwyn deall yn well pa wahaniaeth y mae gwariant yn ei wneud i fywydau pobl, a sut y mae nodau Llywodraeth Cymru'n cyd-fynd â'r broses o osod y gyllideb.[27]

**50.** Mewn adroddiad diweddar gan Chwarae Teg, nodwyd angen am newid sefydliadol o fewn Llywodraeth Cymru:

> "…ceir teimlad o hyd ymhlith swyddogion fod y broses gyllidebu strategol yn rhy bell i ffwrdd o'r broses o lunio polisi ac nad yw'n ddigon tryloyw i alluogi cydweithio a chraffu effeithiol".[28]

**51.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwarae Teg i fwrw ymlaen â'r argymhellion a geir yn yr adolygiad, gan gynnwys cyllidebu ar sail rhywedd ym mhroses flynyddol y gyllideb.

**52.** Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei dyfynnu yn Adroddiad Chwarae Teg, lle y mae'n croesawu'r diffiniad y cytunwyd arno â Gweinidogion Cymru o wariant ataliol. Mae hefyd wedi pwysleisio bod angen system sy'n ei gwneud yn haws olrhain cynnydd o ran gwneud penderfyniadau'n wahanol o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[29] Mae'r diffyg adroddiadau integredig ar berfformiad yn ei gwneud yn anodd dadansoddi'r effaith y mae gwariant Llywodraeth Cymru yn ei chael.

---

[26] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraffau 40-41

[27] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 68

[28] Chwarae Teg, Gwneud nid Dweud, (Mehefin 2019), tudalen 65

[29] Chwarae Teg, Gwneud nid Dweud, (Mehefin 2019), tudalen 67

**53.** Er enghraifft, yng Nghyfrifon 2018-19, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod 'datgarboneiddio yn awr yn faes â blaenoriaeth yn 'Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol' ac mae camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o gyflawni saith nod llesiant Cymru'. Fodd bynnag, heblaw am yr hyn a nodwyd mewn astudiaeth achos, nid yw Cyfrifon 2018-19 yn manylu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd yn hyn o beth, ac nid yw'n rhoi gwybodaeth am ganlyniadau chwaith.

**54.** Cyfeiriodd Archwilydd Cyffredinol Cymru at arferion perthnasol yn Seland Newydd, lle mai Adroddiad Blynyddol y Trysorlys a Datganiadau Ariannol Llywodraeth Seland Newydd yw'r rhai sy'n cyfateb agosaf i gyfrifon Llywodraeth Cymru. Dywedodd:

> "Yn neilltuol, mae Adroddiad Blynyddol y Trysorlys yn gosod amrywiaeth eang o wybodaeth allan i'r darllenydd, wedi ei chyflwyno mewn arddull glir a diddorol, ac mae'n cynnwys gwybodaeth helaeth am dargedau, perfformiad a chanlyniadau.
>
> Mae adrannau eraill o Lywodraeth Seland Newydd yn cynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol eu hunain, megis ar gyfer Gweinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Addysg. O'u cymryd gyda'r cyfrifon blynyddol, mae'r adroddiadau adrannol hyn gyda'i gilydd yn rhoi darlun cynhwysfawr o gynnydd, cyflawniadau a llwyddiannau."[30]

[30] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-28-19 Papur 6, 11 Tachwedd 2019

# 4. Adrodd am Berfformiad

**55.** Ers 2015-16, mae'r Pwyllgor wedi gwneud cyfres o argymhellion yn ei adroddiadau craffu ar gyfrifon ynghylch adroddiadau perfformiad Llywodraeth Cymru.

**56.** Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM (a elwir yn aml yn 'FReM') yw'r canllaw cyfrifyddu technegol ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon cyrff cyhoeddus penodol, a Llywodraeth Cymru yn eu plith.

**57.** Mae llawer o'r FReM wedi cael ei osod yng nghyd-destun adrannau a ariennir trwy broses Amcangyfrifon San Steffan ac mae rhai o'r gofynion manylach ond yn berthnasol i'r adrannau hynny o lywodraeth y DU sydd wedi cyhoeddi Cynllun Adrannol Sengl.

**58.** Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd i ategu'r FReM ar gyfer paratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 yn rhestru'r meysydd y dylai adrannau geisio rhoi sylw bras iddynt mewn perthynas â'r Adroddiad Perfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Yr hyn y mae'r corff yn ceisio'i gyflawni (yn cyd-fynd ag amcanion a strategaethau);
- Ar beth mae wedi gwario'i arian;
- Sut y mae wedi perfformio (gan ddefnyddio dangosyddion), gan esbonio'r cysylltiadau rhwng darnau amrywiol o wybodaeth a naratif ynghylch y cysylltiad rhwng Dangosyddion Perfformiad Allweddol, risg, ansicrwydd a gwariant; a
- Beth yw cynlluniau'r corff ar gyfer y dyfodol.

**59.** Yn ei Adroddiad, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, dywedodd y Pwyllgor ei fod yn credu bod gan Gymru gyfle i 'arwain y ffordd' o ran cyflwyno adroddiadau ariannol. Nododd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau am gyfrifon i'r cyrff y mae'n eu noddi, a'r rheini'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys (FReM), gan gynnwys y canllawiau ynghylch adrodd am berfformiad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "We make sure that we keep our arm's-length bodies, our sponsored bodies, up to date in all developments in public sector financial reporting [….] I think that's a very important role for the Welsh

> Government to be providing training to spread best practice across the Welsh public sector as a whole, for example with the new accounting standards that are just coming in. And we obviously insist that our sponsored bodies follow the Treasury guidance in how they prepare their reports."[31]

**60.** Mae Cyfrifon 2018-19 yn adlewyrchu rhai newidiadau yn y modd y mae gwybodaeth wedi'i chyflwyno, fel cynnwys astudiaethau achos, ac mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn gliriach pa wybodaeth a geir ym mhob un o dair rhan y ddogfen. Fodd bynnag, yn gyson â'r dull a ddilynwyd yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi adrodd am berfformiad o dan y Rhaglen Lywodraethu.

**61.** Rydym wedi anghytuno o'r blaen â barn yr Ysgrifennydd Parhaol na ddylid cynnwys adrodd ar berfformiad yn erbyn amcanion polisi yn y cyfrifon ar y sail ei fod yn fater i Weinidogion Cymru.[32] Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi cnoi cil ar hyn, a'i bod wedi ystyried yn benodol y pryderon a godwyd gennym, ond dywedodd fod y cyfrifon yn cydymffurfio â holl ganllawiau'r Trysorlys sy'n rhoi'r fframwaith ar gyfer sut y dylai Llywodraeth Cymru adrodd.[33]

**62.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor ym mis Hydref 2018 nad oes yn rhaid i Lywodraeth Cymru, fel gweinyddiaeth ddatganoledig, gydymffurfio â gofynion y FReM, gan nodi bod gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd i wneud pethau'n wahanol ac mewn ffordd sydd, yn ei barn hi, yn well i Gymru.[34]

**63.** Yn ei hymateb i Adroddiad 2016-17 y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd fod adrodd ar berfformiad o dan yr amcanion a geir yn y Rhaglen Lywodraethu – 'Ffyniant i Bawb' – yn fater i Weinidogion Cymru. Ategodd yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2019 fod y system adrodd yn adlewyrchu'r hyn yr oedd y Gweinidogion eisiau ei wneud.[35] Cadarnhaodd fod y Prif Weinidog yn fodlon i swyddogion Llywodraeth Cymru barhau i adrodd ar berfformiad o dan yr amcanion polisi, fel y maent yn gwneud o bryd.

**64.** Clywsom fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi pedwar adroddiad, a'r rheini'n rhoi "trosolwg cynhwysfawr" o weithgaredd yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrifon, adroddiad llesiant blynyddol Cymru, yr adroddiad blynyddol mewn

---

[31] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 234

[32] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, Mawrth 2019

[33] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 45

[34] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 33

[35] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraffau 45-46

perthynas â'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni 'Ffyniant i Bawb', a'r adroddiad alldro blynyddol.

**65.** Mae Cyfrifon 2018-19 yn cyfeirio at yr adroddiadau cynnydd blynyddol tuag at gyflawni 'Ffyniant i Bawb'.[36] Ar adeg gosod y cyfrifon, roedd yr adroddiad blynyddol diweddaraf yn ymwneud â 2017-18 (cyhoeddwyd hwn ar 3 Hydref 2018).[37]

**66.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar lesiant Cymru. Ar adeg gosod y cyfrifon, roedd yr adroddiad diweddaraf ar lesiant Cymru yn ymwneud â 2018 (cyhoeddwyd hwn ym mis Medi 2018). Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn dweud:

**67.** "Mae'r adroddiad hwn yn asesu cynnydd yn erbyn y nodau cenedlaethol ar draws Cymru gyfan. Nid yw'n adroddiad am berfformiad unrhyw sefydliad, ond yn hytrach am y newidiadau rydym yn eu gweld gyda'n gilydd ar draws Cymru."[38]Cyhoeddir adroddiadau perfformiad eraill Llywodraeth Cymru ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, targedau Adrannol ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel targedau amser aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

**68.** Ynghyd â'r Adroddiad Alldro (paragraffau 40-41), mae'r tabl isod yn dangos y pedwar mecanwaith adrodd blynyddol gwahanol a'r diffyg cysondeb wrth eu cyhoeddi.

**Tabl 1: Adroddiadau Blynyddol Llywodraeth Cymru – Dyddiadau cyhoeddi a gosod, 2017-18 a 2018-19**

| Dogfen Adrodd | Diben | Awdur | 2017-18 | 2018-19 | Goruchwylio a Chraffu gan y Cynulliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon Cyfunol | Trosolwg manwl o sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru a sut y mae wedi cyflawni ei rhwymedigaethau statudol. | Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru | 2 Hydref 2018 | 27 Awst 2019 | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod tymor yr hydref |
| Adroddiad Alldro* | Cymhariaeth o gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru a nodwyd | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd | 28 Tachwedd 2018 | 29 Hydref 2019 | Craffu ar waith y Gweinidog Cyllid gan y Pwyllgor Cyllid |

[36]Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (Medi 2017)

[37] Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: adroddiad blynyddol 2018 (Hydref 2018)

[38] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru 2017-18, tudalen 2 (Medi 2018)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | yn y Gyllideb Atodol olaf mewn blwyddyn ac esboniad o amrywiadau sylweddol. | | | | |
| Adroddiad Llesiant Cymru | Adroddiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru gyda'r 7 Nod Llesiant, y 12 Amcan Llesiant, a'r 46 Dangosydd Llesiant. | Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru | 20 Medi 2018 | 26 Medi 2019 | Dim gwaith craffu ffurfiol. |
| Adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed wrth gyflawni 'Ffyniant i Bawb' | Adroddiad ar y cynnydd o dan amcanion y Strategaeth Genedlaethol a'r camau gweithredu unigol cysylltiedig (150+). | Y Prif Weinidog | 3 Hydref 2018 | 31 Ionawr 2020 | Dadl wedi'i harwain gan y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol. |

**Nodyn * Cyflwynir yr Adroddiad Alldro i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.**

**69.** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn credu bod y pedair dogfen yn dangos yr hyn a gyflawnwyd, nid yn unig o ran allbynnau, ond o ran y canlyniadau hefyd.[39] Clywsom y byddai cyfuno'r dogfennau yn creu dogfen a fyddai'n rhy fawr ac yn rhy anodd i'w defnyddio. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "What we try and do always, and I do feel we achieve that, is provide the information that we need to produce for your purposes, for democratic scrutiny of Welsh Government expenditure, but also for wider public interest. So, we try and make it as accessible as possible."[40]

**70.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cael pedair dogfen ar wahân yn galluogi Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar feysydd penodol. Mae'r adroddiad blynyddol ar lesiant Cymru hefyd yn rhoi trosolwg pwysig o'r hyn sydd wedi newid o ganlyniad i bolisïau, a'r rheini'n golygu rhywbeth i'r cyhoedd yn ogystal â'r rheini sy'n gwneud gwaith craffu.[41]

[39] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 91
[40] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 93
[41] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 93

**71.** Er ei bod yn arfer safonol cynnwys lincs i ddogfennau eraill yn y cyfrifon, maent yn llai defnyddiol os nad ydynt yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Maent hefyd yn llai defnyddiol wrth egluro sut y defnyddiwyd arian cyhoeddus a'r hyn a gyflawnwyd gyda'r gwariant hwnnw os nad yw'r adroddiadau'n cyfeirio at y cyfrifon sy'n dangos y gwariant.

**72.** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol at nifer o rwystrau ymarferol i gyhoeddi adroddiadau ar yr un pryd, fel pryd y bydd y data ar gael ar gyfer llunio'r adroddiadau, a'r ffaith mai dim ond pan fydd y cyfrifon wedi cael eu harchwilio a'u cymeradwyo y gellir creu rhai eraill.[42]

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y gwasanaeth sifil

**73.** Yn ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol i Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, dywedodd ei bod wedi gofyn i un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol arwain grŵp gorchwyl a gorffen i gynghori ar ddull addas o baratoi cyfres well a systematig o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddai'r rhain yn ymwneud â pherfformiad gweithredol Llywodraeth Cymru a meysydd a oedd yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Parhaol yn hytrach na Gweinidogion.

**74.** Mewn diweddariad ysgrifenedig, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi argymell fframwaith yn seiliedig ar Fynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil (InCiSE).[43] Dywedir bod Mynegai InCiSE 2019,[44] sef y mynegai diweddaraf, yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod peilot yn 2017[45] a'i fod yn defnyddio 46 yn fwy o fetrigau a 5 yn fwy o ffynonellau data nag o'r blaen.

**75.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym y byddai'r gwaith hwn, sy'n cael ei arwain gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, yn 'helpu i wella a chynnal perfformiad ac effeithlonrwydd y sefydliad'. Ychwanegodd:

> "Bydd rhai dangosyddion perfformiad allweddol newydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon 2019-2020. Bydd eraill yn cymryd mwy o amser gan y bydd angen casglu a dadansoddi data newydd".[46]

---

[42] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 87
[43] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-19 Papur 5, 7 Hydref 2019
[44] Mynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil (InCISE) 2019
[45] Cynllun Peilot InCISE 2017
[46] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-19 Papur 5, 7 Hydref 2019

## Casgliadau ac argymhellion

**76.** Rydym yn dal i bryderu am anghysondeb y wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am berfformiad Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Roedd yn syndod gweld cynifer o wahanol ddulliau cyhoeddi a oedd yn cael eu mabwysiadu gan ei chyrff noddedig; mae rhai ohonynt yn datgelu llawer mwy o wybodaeth nag eraill, gan gynnwys papurau'r Bwrdd. Rydym yn cwestiynu a yw Llywodraeth Cymru (a rhai o'r cyrff noddedig hynny) yn cadw at ysbryd yr egwyddorion tryloywder a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru,[47] ac a yw'n tueddu yn lle hynny i ddatgelu cyn lleied o wybodaeth â phosibl.

**77.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi y gall rhai elfennau fod yn sensitif neu'n gostus, ond os gall cyrff cyhoeddus eraill gyhoeddi papurau eu Byrddau, hyd yn oed os yw hynny'n golygu rhywfaint o cuddio rhai darnau o wybodaeth sensitif dylai Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi geisio gwneud yr un peth – neu ei gwneud yn gwbl glir pam nad yw hynny'n ymarferol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o gyhoeddi papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), yn hytrach na chyhoeddi agendâu a chofnodion cryno yn unig.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff a noddir ganddi i adolygu pa wybodaeth y maent yn ei chyhoeddi ynglŷn â'u Byrddau a chyfarfodydd eu pwyllgorau archwilio er mwyn sicrhau safonau gofynnol cyson, gan alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

**78.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys ffeithlun yng Nghyfrifon 2018-19 a hwnnw'n dangos y pum maes gwariant uchaf. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu nad yw'r cyfrifon a'r Adroddiad Alldro yn egluro gwariant Llywodraeth Cymru yn ddigonol na pha ganlyniadau sydd wedi deillio o'r gwariant hwn. Rydym hefyd yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn symud yn ddigon cyflym i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cyllidebu ar sail rhywedd ac yn adrodd ar y graddau y mae'n newid ei gwariant er mwyn canolbwyntio mwy ar atal.

**79.** Rydym yn croesawu cadarnhad yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn barod i gyflwyno rhagor o wybodaeth yn nodiadau'r Datganiad o Alldro Adnoddau, gan gydnabod bod angen cydbwysedd rhwng rhoi manylion a chadw diddordeb y

[47] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016

cyhoedd. Mae'r math o wybodaeth am amrywiannau yr hoffem ei gweld yn cael ei hystyried yn cynnwys, er enghraifft:

- achosion o danwario neu orwario yn erbyn cyllidebau terfyn gwariant adrannol ac esboniad manylach pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwario yn unol â'r cyllidebau hynny;
- pa rai yw'r cofnodion cyfrifyddu technegol lle mae'r gwir werthoedd yn wahanol i'r amcangyfrifon a pham;
- beth sy'n amrywiannau o dan Wariant a Reolir yn Flynyddol – meysydd gwariant, sydd fel arfer yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn gyfnewidiol neu'n cael eu harwain gan alw; er enghraifft benthyciadau myfyrwyr;
- effeithiau'r amrywiannau hyn – beth y maent yn ei olygu i Gymru, darparu gwasanaethau, cadw cronfeydd nas gwariwyd yng Nghymru i'w defnyddio yn y dyfodol, a chyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

**80.** Nodwn nad oes modd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ar gyfer 'Ffyniant i Bawb' a llesiant tan y bydd y data ar gael. Nid ydym yn deall pam mae'r Adroddiad Alldro'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid fisoedd lawer ar ôl i Lywodraeth Cymru osod ei chyfrifon cyfunol wedi'u harchwilio yn y Cynulliad. Ni welwn unrhyw reswm pam na ellid paratoi'r adroddiad ochr yn ochr â'r cyfrifon, a'i gyhoeddi yn fuan wedi hynny, gan dybio y gallai fod ychydig o fân newidiadau i ffigurau ar ôl llunio'r cyfrifon drafft. Rydym hefyd o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach wrth egluro ei dull cyffredinol o adrodd a'r cysylltiadau rhwng yr adroddiadau ar y Cyfrifon a'r adroddiadau blynyddol eraill a gynhyrchir ganddi.

**81.** O ystyried bod Cyfradd Treth Incwm Cymru wedi'i chyflwyno ym mis Ebrill 2019, credwn fod cyfle i fod yn fwy tryloyw ac eglur ynghylch cyflwr cyffredinol cyllid cyhoeddus Cymru o flwyddyn ariannol 2019-20 ymlaen. Mae'n ymddangos bod bwlch yn sylwebaeth Llywodraeth Cymru yn Rhan 1, sy'n cyfeirio at faterion cyllidol ond heb egluro sut y mae gwahanol elfennau'r cyfrifyddu'n cyd-fynd â'i gilydd. Yn y dyfodol, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried datblygu'r enghraifft a geir yn nhestun cyfrifon Llywodraeth yr Alban, sy'n rhoi mwy o eglurder.

**82.** Rydym yn siomedig o weld yr ymateb gymharol ddi-hid gan Lywodraeth Cymru ar ôl i ni alw arni i fynd ati'n weithredol i ystyried yr achos o blaid Cyfrif Llywodraeth Gyfan. Mae'n ymddangos i ni y byddai cyfrif o'r fath yn golygu bod modd deall a chraffu'n well ar gyflwr cyffredinol cyllid cyhoeddus Cymru. Gallai, er enghraifft, gynnwys manylion refeniw Llywodraeth Cymru o'r bloc grant; cyfradd

treth incwm Cymru (a gesglir drwy CThEM); trethi datganoledig (a gesglir drwy Awdurdod Cyllid Cymru); trethi lleol (y dreth gyngor a chyfraddau annomestig); a benthyciadau.

**83.** O ran y gwariant, gallai roi manylion gwariant refeniw a chyfalaf; asedau (gan gynnwys natur a chyflwr seilwaith y genedl); dyledwyr (gan gynnwys y llyfr benthyciadau myfyrwyr) a balansau arian parod; a rhwymedigaethau gan gynnwys credydwyr, darpariaethau (gan gynnwys pensiynau Llywodraeth Leol), benthyciadau, gwarantau ac arian wrth gefn.

**84.** Dros gyfnod o amser, credwn y byddai cyfrif o'r fath hefyd yn golygu bod modd dadansoddi patrymau tueddiadau, a gallai hynny arwain at well craffu ar ragolygon a rhagamcanion ar gyfer refeniw, gwariant, buddsoddiad cyfalaf a benthyca.

**85.** Gallai hyn helpu i asesu effaith polisïau Llywodraeth Cymru, pe bai modd mapio amcanion polisi ochr yn ochr â gwariant ar linellau gwariant unigol yn y gyllideb.

**86.** Yn olaf, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adrodd am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yng Nghyfrifon 2019-20 ond yn siomedig iddi gymryd cyhyd i ddatblygu'r trefniadau hyn. Nodwn hefyd mai prif nod y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yw "cefnogi Gweinidogion i gyflawni dros Gymru". Os bydd y dangosyddion hyn yn cael eu llunio ar wahân i flaenoriaethau Llywodraeth y dydd, mae gwir berygl y gallai greu mwy o gymhlethdod wrth adrodd. Ni waeth pa mor effeithiol ydyw'n weinyddol, byddai risg bod y sefydliad yn methu pe na bai'n llwyddo yn ei brif nod, sef cyflawni rhaglen y llywodraeth.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dilyn yr arfer gorau o ran rheoli ariannol, cyllidebu ac adrodd. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cynlluniau gwariant dangosol a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau, sicrhau bod cyllidebau wedi'u cysoni ag alldro, cyhoeddi cyfrifon Llywodraeth Gyfan a chynlluniau a rhagolygon cyllid cyhoeddus sy'n edrych tua'r dyfodol. Yn benodol, rydym yn argymell:

- bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i ystyried rhinweddau ac ymarferoldeb paratoi Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni yn hydref 2020;
- bod y Datganiad o Alldro Adnoddau yn nodi rhagor o wybodaeth am amrywiannau sylweddol ac yn egluro'r gwahanol fathau o amrywiannau,

gan ystyried y materion a amlinellir ym mharagraff 33 o'r adroddiad hwn;

- bod yr Adroddiad Alldro yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol, yn ogystal â chael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid yr un pryd â chyfrifon cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru neu'n fuan ar ôl hynny;
- bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ar ei gwefan sy'n nodi ei dull cyffredinol o adrodd a'r cysylltiadau rhwng y pedwar adroddiad blynyddol allweddol a gyhoeddir ganddi fel y'u nodir yn Nhabl 1 yn yr adroddiad hwn;
- y dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gyflwyno cyfres glir a symlach o amcanion a dangosyddion cyffredin ar draws y meysydd adrodd a amlinellir yn Nhabl 1 i hwyluso'r gwaith o wella cysondeb adroddiadau perfformiad cynhwysfawr.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr inni o'r dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n bwriadu adrodd arnynt ar gyfer 2019-20 i fesur perfformiad gweinyddol y Gwasanaeth Sifil ac amserlen ar gyfer adrodd ar y dangosyddion sy'n weddill.

# 5. Llywodraethu ac Atebolrwydd

## Proffil risg

**87.** Yn ôl y Datganiad Llywodraethu, a gyflwynwyd fel rhan o Gyfrifon 2018-19, dim ond dwywaith yn ystod 2018-19 yr oedd Bwrdd Llywodraeth Cymru wedi adolygu risgiau corfforaethol, a barodd inni ofyn a oedd hyn yn ddigon i'r Bwrdd gyflawni ei gyfrifoldebau.

**88.** Amlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod prosesau eraill ar waith yn ogystal ag adolygiadau manwl y Bwrdd. Asesir risgiau ar lefel Grŵp gan alluogi Cyfarwyddwyr i'w cadw dan reolaeth gyson a rheoli risgiau sy'n benodol i'w grŵp unigol. Bu'r Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol yn craffu ac yn rhoi her allanol trwy'r Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg ar lefel grŵp, a thrwy Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae Is-bwyllgor Cyllid Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru hefyd yn craffu ar y cofrestrau risg.

**89.** Roedd Cyfrifon 2018-19 yn nodi bod proffil risg Llywodraeth Cymru yn 'helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy'.[48] Dywedodd Llywodraeth Cymru mai'r mater mwyaf difrifol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ar y pryd, oedd lefel yr ansicrwydd ynghylch amseriad a chanlyniad y broses bontio wrth ymadael â'r UE yn ogystal â'i heffaith debygol ar Gymru.[49] Rhoddodd y Bwrdd bedair risg newydd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod 2018-19. Roedd y rhain yn cynnwys uwchgyfeirio'r risg ynghylch cyflawni 'Cymru Iachach', sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

**90.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cynnwys y risg hon yn rhoi ffocws cliriach i Lywodraeth Cymru a bod gwaith yn parhau, gan gynnwys ymgysylltu'n agos â'r GIG a sefydliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol. Roedd cyllideb o £10 miliwn wedi cael ei gosod ar gyfer y rhaglen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau a nodir yn 'Cymru Iachach', ynghyd â Chronfa Trawsnewid y GIG.[50]

**91.** Roedd y tair risg newydd arall a ddisgrifir yn y cyfrifon yn ymwneud â llywodraethu cyrff hyd braich, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a digwyddiad yn tarfu ar fusnes Llywodraeth Cymru, sy'n arbennig o briodol ar adeg cyhoeddi'r

[48] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen 58
[49] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen 58
[50] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 64

adroddiad hwn. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth yng Nghyfrifon 2018-19 mewn perthynas â'r risgiau eraill ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## Materion Rheolaeth Fewnol

**92.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, yng Nghyfrifon 2018-19, fod gan Lywodraeth Cymru 'fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn'. Aethom ati i edrych ar rai o'r materion hynny.

### Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig

**93.** Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn amodol ar gyfrif Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig am y flwyddyn hyd at fis Hydref 2018, gan adlewyrchu canfyddiadau'r archwilwyr o ddiffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a methiant i ddangos gwerth am arian. Roedd hyn yn ymwneud â pha mor gymwys oedd gwario arian grant penodol ar gontractau a ddyfarnwyd trwy 'geisiadau uniongyrchol' ac estyniadau i brosiectau gan Lywodraeth Cymru.

**94.** I ddechrau, aseswyd bod y contractau hyn yn werth €33.1 miliwn. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi meintioli eu bod yn werth €8.9 miliwn. Yn ôl Cyfrifon 2018-19, roedd y gwir swm eto i'w gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd.

**95.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Parhaol pam nad oedd fframwaith rheoli Llywodraeth Cymru wedi canfod y risg o ddiffyg cydymffurfio a'i rheoli. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn credu bod y cynigion a gyflwynodd yn gymwys i gael cyllid gan yr UE. Ychwanegodd fod gan Lywodraeth Cymru record ragorol ar gydymffurfio, ac y gwelwyd y lefelau ad-dalu isaf yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf.[51]

**96.** Esboniodd Andrew Slade, y Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol fod y mater yn deillio o asesiad o'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â dulliau o ganfod a chymeradwyo prosiectau. Awgrymodd dadansoddiad cynnar Llywodraeth Cymru nad oedd hon yn broblem systemig ac y gallai unrhyw broblemau gyda'r modd y cafodd y prosiectau hyn eu rheoli gael eu hamlygu fel rhan o ymarfer dysgu gwersi.

[51] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 81

**97.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau dwyochrog ynghylch Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig pan fydd hynny'n briodol.

### Cyrff Hyd Braich

**98.** Yn ei adroddiad, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch sut y byddai newidiadau arfaethedig i 'Weithdrefnau Galw i Mewn' Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyrff Hyd Braich yn gweithio. Y drefn galw i mewn yw'r gofyniad i Gyrff Hyd Braich ofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhai categorïau o benderfyniadau, er enghraifft tendrau sengl uwchlaw trothwy penodol neu faterion sy'n newydd ac yn ddadleuol.

**99.** Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu'n flaenorol y byddai dileu'r weithdrefn hon yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i Lywodraeth Cymru o ran yr amser a dreulir yn rhoi cyngor a chymeradwyaeth, ac yn golygu bod Prif Weithredwyr ar gael i wneud y penderfyniadau priodol y maent yn gyfrifol amdanynt fel Swyddogion Cyfrifyddu. Byddai 'proses adolygu wedi'i theilwra' yn cael ei defnyddio i roi sicrwydd o ran a yw cyrff unigol yn parhau i fod yn addas at y diben, yn cael eu llywodraethu'n dda ac yn atebol yn briodol.[52]

**100.** Gofynnwyd sut y byddai Llywodraeth Cymru yn cael sicrwydd yn y dyfodol ar faterion a adroddwyd yn flaenorol drwy'r weithdrefn. Mewn diweddariad ym mis Gorffennaf 2019, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod hi a'r Prif Weinidog wedi cytuno ar drefniadau pontio ar gyfer 2019-20, ar ôl cael eu sicrhau gan swyddogion nad yw cael gwared ar y gweithdrefnau galw i mewn yn peri risg annerbyniol i Lywodraeth Cymru nac i'r nod o gyflawni ei rhaglen yn effeithiol.[53] Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol fanylion am y trefniadau pontio ar gyfer y gweithdrefnau newydd, a fydd yn cyflwyno trefniadau ar gyfer cymeradwyo, rhaghysbysu a hysbysu.

**101.** Yn ei diweddariad dilynol ar 27 Medi 2019, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r trefniadau pontio, wedi 'mireinio'r trefniadau galw i mewn ymhellach er mwyn egluro'r weithdrefn i'w dilyn os bydd corff cyhoeddus yn dewis diystyru cyngor Llywodraeth Cymru ar fater pan fo rhaghysbysu yn ofynnol'. Rhoddwyd gwybod i gyrff cyhoeddus am y newidiadau ym mis Gorffennaf 2019.

**102.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi adolygu diben a gwerth ei rhyngweithio â Chyrff Hyd Braich, gan gasglu nad oedd llawer o

[52] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-26-18 PTN2, 15 Hydref 2018

[53] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-21-19 PTN3, 16 Medi 2019

ddiben i'r trefniadau galw i mewn ac nad oeddent yn ychwanegu gwerth sylweddol. Teimlai'r Cyrff Hyd Braich fod y broses yn tarfu ar eu gwaith.[54]

**103.** Nod Llywodraeth Cymru oedd datblygu perthynas dryloyw a strategol gyda'r Cyrff Hyd Braich, gan sicrhau bod strwythurau llywodraethu a gwneud penderfyniadau priodol wedi'u sefydlu i roi sicrwydd i'r Ysgrifennydd Parhaol ac i alluogi swyddogion cyfrifyddu i wneud y penderfyniadau cywir. Yn hytrach na chanolbwyntio ar drafodion unigol o dan y trefniadau galw i mewn (gan y gall rhai ohonynt fod yn ymylol eu natur), roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu newid y trefniadau hynny ar sail trafodion, gan gasglu data yn y cyfamser i sicrhau ei bod yn cael gwybodaeth dda.

**104.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "…for me, the focus has got to be on having the right chair and chief exec who are both competent and trained, to have a capable and well-functioning board overall, a good audit and risk committee, and a properly trained accounting officer who is applying effective financial controls, and that we also have the right level of scrutiny through internal and external audit, and also, obviously, through Assembly committees. Obviously, we want to build an effective relationship with the Welsh Government as part of that."[55]

**105.** Dywedodd y byddai adolygiad wedi'i deilwra'n cael ei gwblhau mewn perthynas â phob Corff Hyd Braich yn ystod tymor pob Llywodraeth. Tra bod Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn datblygu'r dull:

> "That review will focus on the overall purpose and role of the ALB, its capacity to deliver the control and governance arrangements that are in place, how the board is functioning, how decision-making structures are functioning, the relationship with the Welsh Government and, in particular, with the sponsor team; also, issues like value for money, whether there's scope to make savings, what is the digital readiness of that ALB given […] how fast things are moving. All of that will be done in partnership—a mix of Welsh Government officials, arm's-length bodies and independent members as well"[56]

**106.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai panel herio, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, yn ystyried yr adolygiad ar

---

[54] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 174

[55] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 176

[56] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 179

ddiwedd y broses. Pan glywsom dystiolaeth, roedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn treialu'r dull, ac roedd disgwyl i'r panel herio cyntaf gael ei gynnal ym mis Ionawr 2020. Byddai rhaglen lawn o adolygiadau wedi'u teilwra yn cael ei chynnal yn dilyn hynny.[57]

**107.** Gan fyfyrio ar y newidiadau hyn, nid oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn credu bod mwy o bellter bellach rhwng Llywodraeth Cymru a'i Chyrff Hyd Baich; roeddent yn cydweithio'n agos yn ei barn hi, ac roedd rheolau tyn yn dal i fod ar waith. Roedd gan bob Corff Hyd Braich ddogfen fframwaith a oedd yn nodi diben y corff a'i berthynas â Llywodraeth Cymru. Roedd gan bob Corff Hyd Braich hefyd Swyddog Cyfrifyddu penodedig, sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon blynyddol, ac roedd y rheini'n cael eu harchwilio.[58]

### Hawliadau Grantiau Awdurdod Lleol

**108.** Yn ei Datganiad Llywodraethiant, disgrifiodd Llywodraeth Cymru ei threfniadau atebolrwydd lleol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff y GIG. Dywedodd fod 'cyfran sylweddol' o'i gwariant yn mynd tuag at gyflawni amcanion polisi a darparu gwasanaethau rheng flaen yn y meysydd hyn.[59]

**109.** Roedd yr adroddiad rheoli grantiau, a gafodd ei gynnwys am y tro cyntaf yng Nghyfrifon 2018-19, yn dangos symiau'r cyllid a neilltuwyd yn ôl sector a blwyddyn ariannol. Dangosodd hyn fod £1.3 biliwn o'r £3.5 biliwn (neu 37 y cant) o'r cyllid a neilltuwyd yn 2018-19 wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol.

**110.** Mae ardystio (neu archwilio) hawliadau grantiau yn un ffordd o roi sicrwydd i gyrff sy'n rhoi grantiau bod y cyrff sy'n derbyn y grantiau hynny'n cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys gwirio bod hawl gan y corff i gael cymhorthdal neu grant a gwirio'r modd y mae'n defnyddio'r arian. Bu'n arfer gan Lywodraeth Cymru ers tro i'w gwneud yn ofynnol – yn nhelerau ac amodau llawer o'i grantiau wedi'u neilltuo – i'r Archwilydd Cyffredinol fynd ati'n annibynnol i ardystio (neu archwilio) hawliadau awdurdodau lleol am gyllid grant.

**111.** Nodwyd yng Nghyfrifon 2018-19 fod Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal peilot i adolygu'r sail dros ardystio hawliadau grantiau:

> "Amcan y cynllun peilot oedd ystyried faint o werth fyddai symud i ffwrdd o gynnal profion helaeth ar drafodiadau ariannol, i ystyried pa weithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni drwy grantiau a

[57] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 180

[58] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraffau 203-204

[59] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen 55

chanolbwyntio wrth archwilio ar ystyried a gyflawnwyd canlyniadau ai peidio."[60]

**112.** Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi esbonio'n flaenorol:

> "...the overall aim of that pilot was to test out how to get the right balance of assurance versus use of resources by both ourselves, WAO and local authorities in fact—you know, what was the right balance. We reviewed the outcome of those pilots and that approach that we took in the pilot has now been rolled out across all 22 local authorities for the 2017-18 financial year. Once we have the audit statements for that year, we will review very carefully to make sure that we're content with that process. But it seems to us to be a useful way of really focusing on the essentials without putting undue burdens on the local authorities."[61]

**113.** Nododd Cyfrifon 2018-19:

> "Penderfynwyd erbyn hyn na fydd angen gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar ddyfarniadau grantiau i awdurdodau lleol drwy broses o archwiliad ariannol allanol mwyach. O 2019-20, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi eu hymddiriedaeth mewn swyddog â'r awdurdod priodol yn yr awdurdod lleol, sef Swyddog Adran 151 neu Brif Swyddog Cyfrifyddu."[62]

**114.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "... for grants that are over £100,000, we will have additional assurance coming from this statement of expenditure or outturn certificate. So, that's grants over £100,000. For grants under £100,000, we get assurance via the claims process, which includes assurance, and of course all—. Here we're talking about hypothecated grants to local authorities, rather than the larger, un-hypothecated grants, and all hypothecated grants to local authorities, like to all other grant recipients, have to comply with a mandatory template that sets out, as I said before, the purpose, monitoring arrangements, targets and outcomes. So, I think those two parallel processes build in a lot of rigour and certainly give me assurance about the use of the grant."[63]

---

[60] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen 15

[61] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 243

[62] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen 15

[63] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 275

## Casgliadau ac argymhellion

**115.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Cyfrifon Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, ac ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i roi diweddariad am hyn maes o law.

**116.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol 2018-19 yn rhoi sylwebaeth fanylach am brif risgiau Llywodraeth Cymru; am ei hasesiad o'r risgiau hyn gan gynnwys eu tebygolrwydd a'u heffaith; am ei chynlluniau i liniaru'r risgiau er mwyn cyflawni amcanion yn y dyfodol; ac am symud risg yn ystod y flwyddyn (heblaw am y rheini sydd newydd gael eu hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn 2018-19). Er hynny, nodwn fod rhywfaint o wybodaeth lefel uchel yn cael ei rhoi ynghylch rheoli Brexit, sef y 'mater mwyaf allweddol'.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell cynnwys crynodeb o'r risgiau allweddol ac unrhyw newidiadau iddynt yn ystod cyfnod y cyfrifon. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a sut y mae'r rheini'n cael eu lliniaru. Nid ydym yn galw am gynnwys holl gofrestr risg Llywodraeth Cymru yn y cyfrifon.

**117.** O ran dull newydd Llywodraeth Cymru o reoli ei Chyrff Hyd Braich a chael gwared ar y trefniant galw i mewn, rydym yn dal i bryderu am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid hwn mewn atebolrwydd. Byddwn yn monitro pa mor effeithiol yw'r Uned Cyrff Cyhoeddus sydd newydd gael ei sefydlu wrth wella'r ymwneud a'r trefniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyrff Hyd Braich drwy ddilyn hynt y materion hyn yn ein gwaith craffu yn y dyfodol.

**118.** Mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau presennol ar gyfer ardystio hawliadau grantiau awdurdodau lleol. Bydd hynny'n cael gwared ar y gofyniad am archwiliad allanol, ac yn hytrach bydd yn ofynnol i hawliadau gael eu cymeradwyo gan swyddog awdurdodedig addas. Mae ardystio grantiau'n annibynnol yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru (fel y corff sy'n rhoi'r grantiau) fod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio at y diben penodol ac yn unol â'r trefniadau rheoli tyn a geir yn y telerau a'r amodau. Mae hyn hefyd yn rhoi sicrwydd i'r cyrff sy'n cael cyllid ac, yn anuniongyrchol, i'r trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'r gofyniad i hawliadau gael eu hawdurdodi gan swyddogion awdurdodedig yn reol newydd ac rydym yn ymwybodol bod y broses ardystio archwiliadau, yn y gorffennol, wedi nodi materion sylweddol yn aml gyda hawliadau grant er bod y prosesau awdurdodi hyn eisoes ar waith cyn yr archwiliad.

**119.** Rydym yn synnu bod Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt yn llwyr, yn ôl pob golwg, o ran cael sicrwydd ynghylch i ba raddau y mae cyllid grant yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. O ystyried y pwysau sydd ar gyllid cyhoeddus, gall sicrwydd o'r fath ynglŷn ag effeithiolrwydd gwariant cyhoeddus helpu i lywio penderfyniadau Gweinidogion wrth ddyrannu adnoddau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi esboniad llawnach i'r Pwyllgor o sut a pham y penderfynwyd symud o'r gofyniad bod hawliadau grantiau awdurdodau lleol yn cael eu hardystio'n allanol i ddibynnu bellach ar gymeradwyaeth mewnol yn unig, a pham y mae wedi rhoi'r gorau i'w hymdrechion i gael sicrwydd bod grantiau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

# 6. Y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru

## 'Diogelu'r Dyfodol'

**120.** Yn 2017, sefydlodd yr Ysgrifennydd Parhaol gynllun i "ddiogelu'r dyfodol", a disgrifir hwn yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru 2018-19 fel:

> "…rhaglen o newid a gwelliant eang ei chwmpas sydd wedi'i chynllunio i feithrin gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chadarn a all fodloni'r heriau rydym yn eu hwynebu heddiw ond hefyd baratoi'r sefydliad at heriau'r dyfodol."[64]

**121.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi'n flaenorol nad oedd cynllun "Diogelu'r Dyfodol" yn annhebyg i gynllun y cyn-Ysgrifennydd Parhaol, sef "Paratoi at y Dyfodol". Y llynedd, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro sut roedd y rhaglen newydd yn gweithio, nid yn unig i wella effeithlonrwydd y sefydliad ond hefyd i wella ei gapasiti a'i ystwythder.

**122.** Mewn ymateb[65], nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod 'Diogelu'r Dyfodol' yn adeiladu ar waith ei rhagflaenydd ac yn ystyried yr hyn a ddysgwyd a'r syniadau a nodwyd yn sgil hynny. Roedd 'Paratoi at y Dyfodol' yn edrych yn bennaf ar yr addasiadau yr oedd angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud o ran trefniadaeth a strwythur. Yn 'Diogelu'r Dyfodol', mae'r pwyslais ar newidiadau sy'n gysylltiedig â phobl a natur 'system gyfan' ac integredig y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen newid ymddygiad.

**123.** O ran yr amcanion penodol a bennwyd ar gyfer rhaglen 'Diogelu'r Dyfodol' a sut mae perfformiad yn cael ei fesur a'i adrodd, clywsom nad oes unrhyw amcanion penodol a bod 'Diogelu'r Dyfodol' yn rhaglen sydd wedi'i chynllunio i newid diwylliant Llywodraeth Cymru. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "The aim of what I'm trying to do comes back to the task I was set by the former First Minister when I arrived—I'm trying to build, with all my colleagues, a more confident, capable and resilient civil service for the future, more adaptable, able to tackle the kinds of priorities we need for the future. I believe very strongly that the Welsh Government is a good organisation, it is full of talented and committed people who

[64] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen iv

[65] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, (30 Ebrill 2019)

really care about what they're doing. I think that that has been demonstrated magnificently this year in response to Brexit."[66]

**124.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd ei bod wedi mynd ati yn ystod ei chwe mis cyntaf yn y swydd i siarad â staff am sut y gellid gwella'r sefydliad. Amlygwyd materion wrth wneud hyn, fel yr angen am fwy o dryloywder a thegwch mewn systemau dyrchafu, gwell arweinyddiaeth a rheoli perfformiad, a mynediad at well cyfleoedd dysgu a datblygu. Dywedodd hefyd fod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd urddas a pharch i bawb yn y gweithle. Roedd yr holl faterion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun 'Diogelu'r Dyfodol'. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn anodd ymrwymo i dargedau yn y meysydd hynny, a'r nod cyffredinol oedd sbarduno newid diwylliannol gwirioneddol a fydd yn para dros amser.[67]

## Arolwg Staff

**125.** Ar ôl ystyried y fethodoleg a threfniadau'r contract, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â defnyddio'r un arolwg pobl yn 2019. Mae hyn yn sgil newidiadau i'r contract gyda datblygwyr yr arolwg pobl, sy'n cael ei oruchwylio gan Wasanaeth Sifil y DU yn Whitehall. Roedd y newidiadau hyn yn golygu nad oedd sicrwydd y gallai Llywodraeth Cymru gynnwys y cwestiynau penodol i Gymru yr oedd am eu gofyn. Felly, wrth bwyso a mesur y gost yn erbyn y buddion, cytunwyd na fyddai'r arolwg pobl newydd yn rhoi'r math o wybodaeth yr oedd ei hangen ar Lywodraeth Cymru. [68]

**126.** Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ei harolwg cyfatebol ei hun ar ddechrau 2020, gan gadw'r pwyslais ar Gymru ond gan barhau i allu cymharu'r canfyddiadau â ffigurau Llywodraeth y DU.[69]

**127.** Dywedwyd wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn aildrafod â Swyddfa'r Cabinet i gynnwys cwestiynau penodol i Gymru yn Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil yn y dyfodol. Gallai hyn ddigwydd ym mis Chwefror 2020, yn dibynnu ar y sefyllfa wrth adnewyddu'r contract. Os bydd y trafodaethau hyn yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn ailymuno â'r arolwg yn hydref 2020.[70]

---

[66] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 141

[67] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 142

[68] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 103

[69] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 104

[70] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 107

## Recriwtio

**128.** Yn ystod ei waith o graffu ar gyfrifon 2017-18, gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a fyddai'n dechrau defnyddio'r "Proffiliau Llwyddiant" – y fframwaith recriwtio newydd a ddefnyddir yng Ngwasanaeth Sifil y DU. Nod y fframwaith yw helpu i wella perfformiad a gwella amrywiaeth a chynhwysiant, gan symud i ffwrdd o ddefnyddio system asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn unig ac asesu ymgeiswyr yn erbyn ystod o elfennau a defnyddio amrywiaeth o ddulliau dethol.

**129.** Mae pum elfen i'r fframwaith Proffiliau Llwyddiant: ymddygiadau; cryfderau; gallu; profiad; a thechnegol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor ym mis Hydref 2018:

> "We are part of the UK civil service and we operate within the framework of the UK civil service, but that framework gives flexibility in a number of areas, and we use what we think is best for Wales and for this organisation. But we definitely operate within the framework provided by the Cabinet Office, but we have had a very good look, over the last year or so, at where we think it really works for Wales and where we think we could do something better."[71]

**130.** Mewn gohebiaeth ddilynol, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mewn egwyddor i fabwysiadu Proffiliau Llwyddiant, ond gydag amserlen ychydig yn hirach ar gyfer gweithredu, gan adlewyrchu'r gofynion dwyieithog a'r angen i sicrhau ymgysylltiad ac ymgynghoriad effeithiol ag undebau llafur a rhwydweithiau staff.[72]

**131.** Yn ei Adroddiad, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn egluro'i safbwynt o ran mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU, gan esbonio sut y byddai hyn yn gweithio yng nghyd-destun Cymru. Byddai hyn yn cynnwys y berthynas – neu fel arall – rhwng y dull gweithredu hwn a safonau a gwerthoedd ar gyfer hybu mewnol ar raddfeydd porth a ddatblygir gyda mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (argymhelliad 26).

**132.** Yn ei hymateb, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU yn hydref 2019. Yn dilyn hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru

[71] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 117

[72] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 PTN3, 3 Rhagfyr 2018

wedi dechrau cyflwyno Proffiliau Cryfder drwy ei hymgyrchoedd recriwtio corfforaethol, fel ei hymgyrch prentisiaethau a dyrchafiadau. Hefyd, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "Bydd profiad a thystiolaeth o ddefnyddio ein Proffiliau Cryfderau yn ein hymgyrchoedd corfforaethol yn dylanwadu ar ein ffordd o lunio'n prosesau asesu ar gyfer rolau is na Gradd 7 a recriwtio arbenigol. Fodd bynnag, bydd yr holl weithgarwch darparu adnoddau yn seiliedig ar y Disgwyliadau a ddatblygwyd i adlewyrchu anghenion ein cyd-destun datganoledig a ffyrdd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."[73]

**133.** Mae'r 'Disgwyliadau' hyn yn ategu proffiliau Gwasanaeth Sifil y DU. Maent yn nodi ffyrdd o weithio a gwerthoedd Llywodraeth Cymru, ac yn ategu yn hytrach na disodli Cod y Gwasanaeth Sifil neu egwyddorion Nolan.[74]

**134.** Clywsom fod ethos gwahanol yn ymwneud â recriwtio a rheoli a datblygu perfformiad. Yn hytrach na gwrthdaro â'r Proffiliau Cryfder, canfu Llywodraeth Cymru fod rheoli perfformiad ar sail Disgwyliadau a chryfderau yn fodd o gyflawni nodau cyffredin a chyson. Meddai Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu a Datblygu Sefydliadol Llywodraeth Cymru:

> "So rather than saying, 'We value this over here, but we're going to interview for it in a completely different way over here', or, 'We're going to give you another set of measures for performance management', we want all the bits of our system to be pointing in the direction of what we value, and then putting that into practice by promoting and recruiting people who've got those behaviours, and by embedding that in performance management and the way we develop people. So, the intention is that, by doing things consistently across the board, and those things working together, we start to change the culture in the organisation, especially around leadership."[75]

## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES)

**135.** Wrth graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2017-18, gwelodd y Pwyllgor gynnydd sylweddol yn nifer y pecynnau ymadael a'r costau a oedd yn gysylltiedig â hwy. Er mwyn helpu o ran tryloywder a hwyluso gwaith craffu, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth

---

[73] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-23-19 Papur 5, 7 Hydref 2019

[74] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 127

[75] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 135

yn ei chyfrifon yn y dyfodol i esbonio diben pecynnau ymadael a/neu gynlluniau diswyddo (argymhelliad 22).

**136.** Derbyniodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr argymhelliad hwn, gan nodi y byddai'n ysgrifennu at Gyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru i bwysleisio pwysigrwydd cynnwys gwybodaeth yn eu cyfrifon blynyddol.

**137.** Mae Cyfrifon 2018-19 yn dweud bod 154 o weithwyr wedi gadael neu wedi cytuno i adael yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, a gwerth cyfanredol y taliadau iawndal oedd £5.9 miliwn (gadawodd 156 o weithwyr yn 2017-18, gan olygu mai cyfanswm gwerth yr iawndal oedd £5.9 miliwn). Nodwyd yng Nghyfrifon 2018-19:

> "Lansiwyd y rhaglen dreigl o ymadawiadau gwirfoddol ym Mawrth 2017, ac roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn glir y byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd i asesu a oedd angen gostyngiad pellach yn nifer y staff parhaol er mwyn ymdopi o fewn y gyllideb."[76]

**138.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai nod y Cynllun Ymadael Gwirfoddol oedd lleihau costau staff a chreu lle posibl i gyflogi staff â sgiliau newydd y gallai fod eu hangen ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mwy o bobl â sgiliau digidol a sgiliau yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd y cynllun gyda phedwar maen prawf asesu y mae'n rhaid ystyried pob cais yn eu herbyn. Mae hyn, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol, yn cael ei wneud yn drylwyr.

**139.** Ni fyddai Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo ceisiadau o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol pe bai hynny'n cael effaith ar barhad busnes, pe bai gan yr unigolyn sgiliau allweddol neu graidd, neu pe bai angen recriwtio rhywun yn lle'r sawl a oedd yn gwneud cais. Y pedwerydd maen prawf oedd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob cais o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn arwain at arbediad cost i'r sefydliad yn y dyfodol. Clywsom am broses asesu Llywodraethau Cymru:

> "…it's complex. "There are layers of scrutiny of the applications. They go through line managers and directors, through group recommendation panels, and then the final decisions are taken by ExCo—the executive committee that I chair—to make sure that we are being fair and consistent and very rigorous about the approach that we're taking to VES."[77]

[76] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, tudalen 76
[77] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 52

**140.** O'r 223 cais ar gyfer y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a ddaeth i law, gwrthodwyd 81.[78]

## Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

**141.** Nodwyd mai 8.08 y cant oedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Llywodraeth Cymru yn 2017-18, ac roedd hynny'n is na'r ffigur a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil, sef 12.7 y cant (yn seiliedig ar gyflogau cyfartalog).

**142.** Argymhellodd y Pwyllgor yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor ei chynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan y credai y byddai'r cynllun gweithredu yn elwa ar waith craffu er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon uchelgeisiol.[79]

**143.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol, gan nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwarae Teg yng ngwanwyn 2019 i ddatblygu cynllun gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a chytunodd i'w rannu â'r Pwyllgor ar ôl iddo gael ei gwblhau.

**144.** Yn ei diweddariad dilynol ar 27 Medi 2019, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Mae'n systemau cyflog yn deg, ond mae bwlch cyflog yn deillio o ganrannau'r dynion a'r menywod sy'n gweithio ar wahanol raddau, a'r nifer llawer uwch o fenywod sy'n gweithio'n rhan amser."[80]

**145.** Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn ddiweddar ym mhroses meincnodi Gwobrau Cyflogwr Chwarae Teg a'i bod wedi cyfarfod â Chwarae Teg ym mis Awst 2019 i drafod y canfyddiadau a'r argymhellion.

**146.** Cyhoeddodd Chwarae Teg ddau adroddiad ynglŷn ag ail gam yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhyw: 'Gwneud Nid Dweud – Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru (Cam Dau)' (Medi 2019); a 'Cydraddoldeb Rhywiol – Mapio Llwybr i Gymru'.

**147.** Yn ei diweddariad ym mis Medi 2019, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r argymhellion yn ymwneud â chyflogaeth o adroddiad Cam Dau yr adolygiad i lywio ei gwaith. Byddai'n

---

[78] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 52

[79] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, Mawrth 2019

[80] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-19 Papur 5, 7 Hydref 2019

gwreiddio'r camau gweithredu dilynol yn ei Chynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, a fyddai'n targedu ymgyrch dros gydraddoldeb yn y gweithle yn y cyfnod o fis Ebrill 2020 ymlaen.[81] Mae argymhellion Chwarae Teg wedi cael eu derbyn gan Weinidogion Cymru a'r Pwyllgor Gweithredol, a dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol eu bod yn dangos ymrwymiad i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol. Roedd y cynllun gweithredu dilynol i fod i gael ei weithredu rhwng 2020 a 2024.

**148.** O ran beth yw manteision cynnwys y camau gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog yn y Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, yn hytrach na bwrw ymlaen â'r camau hynny ar wahân, eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i gynnwys camau i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau yn ei chynllun gweithredu amrywiaeth a chynhwysiant newydd. Roedd hyn yn cynnwys camau i gael gwared ar rwystrau i ddilyniant a gwella cydraddoldeb canlyniadau i bawb sydd â nodweddion gwarchodedig, yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar dâl ac amodau. Byddai hyn yn sicrhau nad yw'r materion yn dameidiog.[82]

**149.** Mae Chwarae Teg wedi dweud mai'r uchelgais yw cael gwasanaeth sifil deinamig a hyblyg sy'n barod i gwestiynu a herio sut mae pethau wedi cael eu gwneud yn y gorffennol, ond dywedodd nad oedd pethau'n newid yn ddigon cyflym.

**150.** Nid oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn dymuno herio asesiad Chwarae Teg, ac roedd yn cydnabod bod meysydd lle'r oedd angen i Lywodraeth Cymru weithio'n gynt.[83] Ychwanegodd ei bod yn iach clywed y safbwyntiau hyn ac y dylai Llywodraeth Cymru feddwl am sut y gallai weithio'n gyflymach er mwyn ateb y disgwyliadau hyn.

**151.** Er y byddai'r cynllun amrywiaeth a chynhwysiant yn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan Chwarae Teg, clywsom fod cynlluniau eraill ar waith hefyd. Er enghraifft, rhaglen ddatblygu Llywodraeth Cymru i helpu menywod i fod yn uwch arweinwyr.[84]

---

[81] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-19 Papur 5, 7 Hydref 2019

[82] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraffau 158-162

[83] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 170

[84] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 174

## Y Gymraeg

**152.** Y llynedd, gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau trafodaethau Bwrdd Llywodraeth Cymru ynghylch ei bolisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am weld papurau perthnasol y Bwrdd.

**153.** Roedd diweddariad yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhoi amserlen fras ar gyfer cwblhau'r polisi, gan nodi:

> "Yr amcan tymor byr yw i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl ymddygiad o ran ei defnydd mewnol o'r iaith ac yn y tymor hir, erbyn 2050, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydliad lle gall yr holl staff ddeall Cymraeg, lle bo modd gweithio'n ddwyieithog a bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r iaith."[85]

**154.** Er na soniodd ei hymateb am rannu papurau'r Bwrdd â ni, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol mewn tystiolaeth lafar y byddai'n barod i wneud hynny.[86]

**155.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod strategaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfres o gerrig milltir a thargedau, gydag ymrwymiad yn 'Cymraeg 2050', sy'n sail i'r strategaeth, sy'n dweud:

> "Byddwn yn cyflwyno argymhellion i uwch Swyddogion Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gytuno ar bolisi defnydd mewnol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o Gymraeg o fewn y gweithlu. Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y polisi a byddwn yn ei weithredu yn 2019-20."[87]

**156.** Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd, gan gynnwys asesu cynnydd yn erbyn cerrig milltir, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddwyn ei hun i gyfrif.[88]

## Trefniadau Staffio ac Atebolrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol

**157.** Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn aelodau o Wasanaeth Sifil y DU, a'r Ysgrifennydd Parhaol yw'r Gwas Sifil uchaf yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi dirprwyo i Weinidogion Cymru faterion sy'n ymwneud â staffio Gwasanaeth

---

[85] Gohebiaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-24-19 Papur 5, 7 Hydref 2019

[86] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraffau 196-197

[87] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 182

[88] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 185

Sifil Llywodraeth Cymru, sef y swyddogion gweinyddol anwleidyddol sy'n cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru ni waeth pa blaid sydd mewn grym.

**158.** Wrth ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ym mis Chwefror 2019, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod trefniant parhaol wedi bodoli ac o dan hwnnw yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n gyfrifol am faterion staffio ar ôl cael ei benodi.[89]

**159.** Wrth egluro pwy sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch staffio neu strwythurau, clywsom mai'r sefyllfa ffurfiol yw mai Prif Weinidog Cymru sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r holl faterion sy'n ymwneud â staff a strwythur y gwasanaeth sifil wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Parhaol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd:

> "…we're very clear that we're here to serve the First Minister and his Cabinet, and I consult with him and them on a very regular basis about their priorities, and particularly about strategic decisions on the running of the organisation or any issues concerning staff."[90]

**160.** Wrth egluro ei rôl ymhellach, soniodd yr Ysgrifennydd Parhaol am ei thair swyddogaeth: Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, Uwch Gynghorwr Polisi i'r Prif Weinidog, a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

**161.** Fel rhan o Wasanaeth Sifil y DU, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n unol â'r fframwaith a nodwyd gan Swyddfa Cabinet y DU sy'n cynnwys telerau ac amodau cyflogaeth a safonau a chodau ymddygiad ar gyfer Gweision Sifil. Fodd bynnag, yng Nghymru, caiff y materion hyn eu dirprwyo i'r Prif Weinidog sydd wedyn yn dirprwyo'r rhain i'r Ysgrifennydd Parhaol, gan alluogi rhywfaint o hyblygrwydd.

**162.** I gymhlethu pethau ymhellach, mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol atebolrwydd deuol. Mae'n atebol i Ysgrifennydd y Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil – mae'n adrodd i'r swyddog hwn fel Gwas Sifil yn y DU. Mae hefyd yn atebol i'r Prif Weinidog ac i Lywodraeth Cymru.

**163.** Codwyd pryderon gennym am y potensial i densiynau neu wrthdaro buddiannau ddeillio o'r atebolrwydd deuol hwn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd hi wedi cael unrhyw drafferthion. Ychwanegodd eu bod oll yn weision sifil proffesiynol:

---

[89] Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 77884(w), a atebwyd gan y Prif Weinidog ar 20 Chwefror 2019

[90] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 27

> "We understand the role of civil servants. We understand that we service different Government's or departments while preserving, very importantly our political impartiality."[91]

**164.** I ddangos y cydbwysedd, amlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol y broses ar gyfer ei harfarniad blynyddol. Mae hi'n cynnal asesiad personol o'i pherfformiad o dan amcanion lefel uchel, fel y rheini sy'n ymwneud â chyflawni 'Ffyniant i Bawb' ac ymrwymiadau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Caiff yr asesiad hwn ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet yn Llundain.

**165.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedyn yn gofyn i'r Prif Weinidog am adborth am ei pherfformiad. At hynny, mae un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru yn casglu adborth am yr Ysgrifennydd Parhaol gan staff a rhanddeiliaid allweddol er mwyn eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet.

## Casgliadau ac argymhellion

**166.** Rydym wedi edrych ar nifer o faterion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru a nodwn fod yr Archwilydd Cyffredinol yn edrych ar drefniadau cynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r materion hyn yn hydref 2020, fel rhan o'i waith craffu ar gyfrifon.

**167.** Nodwn sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei egwyddorion recriwtio yn cyd-fynd â'r Proffiliau Llwyddiant er mwyn bod yn gyson â Gwasanaeth Sifil y DU. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r gwaith hwn, wedi datblygu set o ddisgwyliadau ar ffyrdd o weithio a gwerthoedd/ymddygiadau i adlewyrchu'r cyd-destun datganoledig ac, yn benodol, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**168.** Ar y mater hwn, roedd Delyth Jewell AC am fynegi barn leiafrifol, sef y gallai cydymffurfio â fframwaith recriwtio Llywodraeth y DU ar gyfer gweision sifil rwystro ymdrechion i ddatblygu gwasanaeth cyhoeddus 'Cymru'n Un'. Credai yn bennaf mai anghenion Cymru, a'n trefniadau unigryw ni sydd yn aml yn wahanol (fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a ddylai fod yn sylfaen i gymwyseddau, gwerthoedd a sgiliau Gweision Sifil Llywodraeth Cymru. Byddai'n well ganddi pe bai Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb â llywodraeth leol yng Nghymru a staff GIG Cymru o ran gwerthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

---

[91] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 32

**169.** Rydym o'r farn y dylid blaenoriaethu anghenion y cyd-destun Cymreig ac efallai na fydd trefniadau recriwtio sy'n briodol yn Whitehall o reidrwydd yn briodol yng Nghymru.

**170.** Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi optio allan o Arolwg Pobl Llywodraeth y DU ar gyfer gweision sifil Cymru y llynedd ac wedi cynnal ei fersiwn annibynnol ei hun o'r arolwg yn gynharach eleni. Gobeithiwn fod yr arolwg yn gadarn ac wedi mesur barn staff yn briodol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Parhaol am sicrhau bod cyd-destun Cymreig i'r gwaith o gynnal arolygon staff a chredwn ei bod yn gwneud synnwyr i gynllunio arolwg yng Nghymru ar gyfer system Gymreig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai'n fuddiol o hyd pe bai modd cymharu ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae llawer o'r materion diwylliannol a'r materion ymgysylltu â staff a drafodir mewn arolygon o'r fath yn gyffredin i wahanol weithleoedd.

**171.** Yn olaf, o ran y Gymraeg, nodwn fod y gweithgor wedi nodi yn y gorffennol ddyddiad targed o 2036 i wneud y Gymraeg yn iaith weinyddol fewnol, gyfartal. Rydym yn pryderu bod y dyddiad targed hwn wedi'i symud i 2050 a byddwn yn dychwelyd at hyn wrth graffu yn y dyfodol. Hoffem dderbyn cynnig yr Ysgrifennydd Parhaol i rannu â'r Pwyllgor bapurau Bwrdd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'i bolisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhoi mwy o eglurder drwy esbonio'n fanwl ei llinellau atebolrwydd ac unrhyw fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl.

**Argymhelliad 8.** Yn olaf, wrth baratoi i ymgysylltu â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol sydd ar ddod ar gynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru, cred y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol i'r Ysgrifennydd Parhaol nodi beth yw'r cysylltiadau rhwng ei chyfrifoldeb am staffio a blaenoriaethau'r Gweinidogion.